**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

ELGC(5) -31 -18 Papur 5

Ein cyf/Our ref MA-P-ARD-3233-18

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Tachwedd 2018

Annwyl John,

Ar ôl i mi roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 17 Hydref, fe wnes i ymrwymo i ddarparu nodyn ar sut yr ydym yn adolygu'r berthynas rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal adolygiad o'r Cynlluniau Llesiant a'r Cynlluniau Ardal ar hyn o bryd a bydd yr adolygiad yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar y gweithgarwch sy'n gyffredin i'r ddau. Bydd yr adroddiad terfynol yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar y berthynas uchod ac yn nodi'r gwahaniaeth rhwng gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn dilyn yr adolygiad, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiad yn y flwyddyn newydd ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn edrych ar sut y maent yn cydweithio yn ymarferol - gan gynnwys nodi meysydd sydd o ddiddordeb cytûn a sut i ddelio â hwy. Bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law a byddaf yn eu rhannu gyda'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant ar gael.

Yn Gywir,

**Alun Davies AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services